

# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

Y Cynghorydd Norah Clarke

Ward: Notais Porthcawl

Plaid: Annibynnol

## (Y Gynghrair Ddemocrataidd)

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar **30 Ebrill 2023**. Fe'i darperir er gwybodaeth i bob etholwr ac nid at unrhyw ddiben arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

### Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ailethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Ward Notais ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni gan gynnwys bod yn aelod o'r pwyllgorau canlynol, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 3, Rheoli Datblygu, Partneriaeth yr Arfordir a'r Cyngor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych chi wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau (sesiynau hyfforddi) sydd wedi sicrhau fy mod yn ymwybodol o faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor ac a allai effeithio ar fy ward yn ei dro.

Rwyf hefyd wedi helpu aelodau a oedd yn gydweithwyr newydd o fis Mai 2022 gyda chynghor ar lu o faterion gwahanol.

### Gweithgarwch yn yr Etholaeth

Mae Pentref Notais yn ardal gadwraeth ac mae'n bwysig sicrhau bod datblygiadau neu newidiadau yn cyd-fynd â'r ardal gadwraeth ac, ar yr un pryd, yn bwysig iawn cydbwysu anghenion trigolion y pentref sy'n dymuno gwneud newidiadau i'w heiddo. Rwyf wedi gweithio'n agos gyda swyddog cadwraeth y cyngor a thrigolion ar nifer o faterion i sicrhau'r canlyniad gorau i bawb.

Rwy'n falch fy mod wedi helpu nifer o breswylwyr ar amrywiaeth o faterion. Mae rhai ohonynt wedi'u rhestru isod:-

- Coed Leyland oedd yn achosi problemau. Llwyddais i sicrhau canlyniad cyfeillgar i'r hyn a fu'n broblem hirsefydlog. I ddechrau drwy gysylltu â pherchennog yr eiddo yn Awstralia.
- Nifer fawr o dyllau ffyrdd sydd wedi ymddangos o gwmpas y ward.
- Teithwyr yn Rest Bay.

- Nifer o broblemau ailgylchu.
- Problemau gyda draeniau wedi'u blocio ar ochr y ffordd.
- Palmentydd anwastad yn achosi i bobl faglu a chwympo.
- Problemau goleuo a thipio anghyfreithlon.
- Materion cynllunio.

### **Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Cysylltodd dynes o Aberystwyth â mi ym mis Mawrth a oedd newydd golli ei mab a chafodd ei chyfeirio ataf fi gan Gyngor Tref Porthcawl i gynorthwyo gyda lleoli cadair olwyn ar y traeth.

Ar ymweliad â Rest Bay nid oedd ei mab yn gallu cael mynediad i'r traeth a meddyliodd pa mor wych fyddai cael cadair olwyn traeth ar gael i'r rhai llai abl. Mae cadair olwyn traeth ar gael yn Rest Bay, ond nid oedd ei deulu'n ymwybodol.

Aeth ei frawd a'i fam ati i godi arian ar gyfer cadair olwyn ar y traeth a oedd yn cynnwys ei frawd yn cwblhau Marathon Cymru a churo Record Byd Guinness hefyd gan godi arian y mae mawr ei angen. Ar ôl rhedeg y Marathon roedd digon o arian ar gael wedyn i brynu'r gadair olwyn.

Mae wedi bod yn her i sicrhau lleoliad ar gyfer cadair olwyn sydd wedi cael ei gynnig a'i ddarparu yn garedig gan Parkdean Resorts. (Nid oes digon o le i storio cadair olwyn arall yn Rest Bay oherwydd y lle sydd ei angen).

Mae'r gadair olwyn traeth wedi ei gosod ym Mae Trecco ac fe'i defnyddiwyd y diwrnod canlynol un.

Rwy'n falch iawn o ddweud y bydd cyflwyniad ar gyfer y gadair olwyn traeth ddydd Sul 2 Gorffennaf 2023 ym Mae Trecco, ac rwyf wedi cael gwahoddiad i'r digwyddiad.

### **Gweithgareddau/Materion Eraill**

Rwy'n parhau i wirfoddoli ym Mhorthcawl gan fod yn Ysgrifennydd Grŵp Codi Arian a Digwyddiadau RNLI Porthcawl. Rwyf hefyd yn godwr arian gwirfoddol ar gyfer Guide Dogs Cymru yn ogystal ag aelod bwrdd Guide Dog Puppies ac rwyf hefyd yn cefnogi Cyn-filwyr Porthcawl.

**Y Cyngorydd N. Clarke**

**Dyddiad: 17 Mehefin 2023**